

**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd a
Digwyddiad Siarter Teithio Iach Staff
Dydd Mercher 5 Hydref 2022, 10.30am-12.30pm
Ystafell Syndicâd B/Neuadd Ferrier
yn Neuadd y Ddinas**



<p><u>Mynychwyr</u></p> <p>Aelodau'r Bwrdd: Y Cynghorydd Huw Thomas (Cadeirydd) Charles Janczewski (Is-gadeirydd) Suzanne Rankin Fiona Kinghorn Abigail Harris Paul Orders Sarah McGill Michael Evans</p> <p>Matt Wyatt Alun Michael Danny Richards Eirian Evans Sheila Hendrickson-Brown Amelia John</p> <p>Ymddiheuriadau: Huw Jakeway Gareth O'Shea</p> <p>Hefyd yn bresennol: Dylan Owen Abigail Taylor</p>	<p>Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC)</p> <p>Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP Caerdydd a'r Fro)</p> <p>Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro</p> <p>Cyfarwyddwr Cynllunio (BIP Caerdydd a'r Fro)</p> <p>Prif Weithredwr, CC</p> <p>Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC</p> <p>Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)</p> <p>Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC)</p> <p>Comisiynydd Heddlu a Throsedd, De Cymru (CHT)</p> <p>Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru</p> <p>Pennaeth UCP Dros Dro, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC)</p> <p>Prif Swyddog Gweithredol, C3SC</p> <p>Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru</p> <p>Prif Swyddog Tân GTADC</p> <p>Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC</p> <p>Rheolwr Gweithredol Polisi a Gwelliant, CC</p> <p>Swyddog Cynllunio a Gwella, CC</p>
---	--

Rhif	Eitem Agenda	
1.	<p>Croeso / Ymddiheuriadau</p> <p>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod.</p>	
2.	<p>Cofnodion a Chamau Gweithredu</p> <p>Cyflwynwyd Cylch Gorchwyl diweddara'r Bwrdd gyda'r Cyngor Gorchwyl, a oedd wedi'i ddiwygio i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a bod cynrychiolaeth o sefydliadau penodol yn ofyniad statudol. Gwnaed diwygiadau hefyd i gydnabod rôl aelodau gwahoddedig ac adlewyrchu statws cyfartal yr aelodau statudol a'r aelodau gwadd ar y Bwrdd.</p> <p>Gofynnwyd am ddiwygiadau pellach gan Aelodau'r Bwrdd.</p> <p>Nododd y Cadeirydd fod yr holl gamau gweithredu yng nghofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 wedi'u cwblhau, gyda nifer fechan i'w gweithredu cyn bo hir:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd sesiwn friffio ynglŷn â phwysau iach plant ac oedolion yng Nghaerdydd yn erbyn Bro Morgannwg yn cael ei ddarparu erbyn canol mis Hydref. • Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â'r Amgueddfa Genedlaethol ac wedi trafod gyda nhw'r posibilrwydd o statws aelodau cyswllt, mynychu mewn perthynas â materion penodol a dod yn rhan o rai byrddau cyflawni. • Mae'r Cadeirydd wedi cyfarfod â Chyfarwyddwr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) i drafod gwahodd y P-RC i'r BGC. Does dim awydd cryf yn dod i'r amlwg ond bydd sgysiau yn parhau. • Bydd y BGC yn ystyried yr ymateb i argymhellion y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn ei gyfarfod nesaf ar 30 Tachwedd. • Mae adolygiad o drefniadau llywodraethu'n parhau. Bydd strwythur llywodraethu partneriaethau diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y BGC ar 30 Tachwedd 2022. <p>CYTUNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2022 <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cylch Gorchwyl y BGC i'w diwygio ymhellach, yn unol â'r diwygiadau y gofynnwyd amdanynt gan Aelodau'r Bwrdd. 	Ysgrifenyddiaeth

Rhif	Eitem Agenda	
3.	<p>Cynllun Lles Lleol Caerdydd 2023-2028 Drafft</p> <p>Cyflwynodd Dylan Owen y Cynllun Lles Lleol drafft 2023-2028, yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol terfynol Caerdydd 2021/22 yn erbyn Cynllun Lles Lleol cychwynol y BGC 2018-2023.</p> <p>Nododd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd Alun Michael:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Byddai'n ddefnyddiol i'r BGC gysylltu â'r ymgysylltu sy'n digwydd ar draws yr Heddlu. • Mae cyfle, fel rhan o'r trefniadau llywodraethu, i sicrhau bod y dirwedd bartneriaeth yn cael ei chyfuno'n effeithiol - yn enwedig mewn meysydd sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuenctid, diogelu a thrais ieuenctid. • Pwysigrwydd pwysleisio gweithredu ar hiliaeth a sicrhau canlyniadau'r Tasglu Cydraddoldeb Hiliol. • Er bod ymateb i'r Ddyletswydd Atal Trais Difrifol statudol newydd yn cael ei nodi fel blaenoriaeth, dylai'r flaenoriaeth adlewyrchu pwysigrwydd atal trais yn gyffredinol, nid dim ond trais difrifol. <p>Nododd Michael Evans, ar draws pob strategaeth bartner, y dylid cael cydnabyddiaeth glir o'r meysydd lle gallai fod effaith carbon. Lle mae yna gyfaddawd polisi, mae'n bwysig bod hyn yn cael ei ystyried a bod mesurau i wrthbwysu'r carbon mewn mannau eraill yn cael eu deall yn llawn. Roedd y Cadeirydd yn cydnabod y gallai fod blaenoriaethau polisi oedd yn cystadlu. Er enghraifft, mae angen clir i ddarparu tai newydd yng Nghaerdydd i fynd i'r afael â digartrefedd, mynd i'r afael â phwysau chwyddiant yn y sector rhentu preifat a gwneud tai yn fwy fforddiadwy i bobl ifanc. Byddai hyn yn golygu ceisio adeiladu tai i'r safonau cynaliadwyedd uchaf posib, ond mae hefyd angen i'r argaeledd cyllid hwnnw effeithio ar allu'r ddinas i gyflawni. Mae hyn yn gwasanaethu i bwysleisio pwysigrwydd y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd, sy'n canolbwyntio ar arwain y newid i sero net ar draws y ddinas.</p> <p>Canmolodd Fiona Kinghorn y Cynllun gan nodi bod ganddi ychydig o fân ddiwygiadau a fydd yn cael eu hanfon at Dylan Owen.</p> <p>Nododd Abigail Harris fod y BGC a'r BPRh yn cydnabod llawer o'r un blaenoriaethau, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cael trefniadau cyflawni clir.</p> <p>Cytunodd Sarah McGill y bydd pwysigrwydd trefniadau cyflenwi a'r drafodaeth yng nghyfarfod darlledu gwasanaeth cyhoeddus mis Tachwedd yn hanfodol i gefnogi darpariaeth effeithiol.</p> <p>Amlygodd Sheila Hendrickson-Brown ei fod yn gadarnhaol bod gan y cynllun bwyslais ar gydraddoldeb ac, os bo'n bosibl, y dylai'r</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>dangosyddion deilliant sy'n mesur cynnydd yn erbyn yr amcanion lles ystyried yr effaith ar wahanol grwpiau cydraddoldeb.</p> <p>CYTUNWYD:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd y bydd Amcan Lles 6 yn cael ei ailenwi fel 'Caerdydd Un Blaned.' • Cymeradwyodd y BGC y Cynllun Lles Lleol drafft 2023-2028 ar gyfer ymgynghori, yn amodol ar fân ddiwygiadau. • Cymeradwyodd y BGC y dull ymgynghori a chytunodd i gefnogi ei hyrwyddo, sef drwy roi cyhoeddusrwydd i'r Arolwg 'Holi Caerdydd' drwy sianeli cyfathrebu mewnol ac allanol. • Cymeradwyodd y BGC gyhoeddiad yr Adroddiad Blynyddol terfynol 2021/22 yn erbyn Cynllun Lles Lleol 2018-2023. <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoi gwybod i'r Cyhoedd am ganfyddiadau Holi Caerdydd (ac arolygon perthnasol eraill, gan gynnwys ymgysylltu a wnaed gan yr Heddlu), er mwyn sicrhau bod y Cynllun Lles a blaenoriaethau'r BGC yn cyd-fynd â materion a nodwyd gan ddinasyddion. • Diwygio blaenoriaeth ganlynol y BGC, "<i>ymateb, mewn partneriaeth â Bro Morgannwg, i'r Ddyletswydd Atal Trais Difrifol statudol newydd, a ategir gan ddull gweithredu sy'n seiliedig ar iechyd y cyhoedd tuag at leihau trais</i>" i adlewyrchu pwysigrwydd atal trais yn gyffredinol. • I amlygu cyfleoedd i hyrwyddo arloesedd a'r economi werdd drwy raglen waith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn y Cynllun Lles. • Dylan Owen i gwrdd â C3SC i drafod sut i wneud y gorau o ymgysylltu â'r trydydd sector gyda'r Cynllun Lles fel rhan o'r cyfnod ymgynghori. 	<p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Ysgrifenyddiaeth</p> <p>Dylan Owen</p>
4.	<p>Argyfwng Costau Byw – Diweddariad gan Bartneriaid</p> <p>Rhoddodd aelodau'r BGC grynodedd o'r effeithiau y mae'r argyfwng costau byw yn eu cael ar eu sefydliadau.</p> <p>Yn gryno, mae sefydliadau'n profi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau, yn ogystal â chynnydd yng nghymhlethdod y galw. • Pwysau ariannol a bylchau mewn cyllidebau • Gwytnwch llai yn dilyn pandemig Covid-19 • Anhawster cadw staff arbenigol (fel dadansoddwyr busnes), sy'n symud i rywle arall am gyflogau mwy cystadleuol. Mae llawer o sefydliadau hefyd yn gweld bod gweithwyr allweddol yn symud allan o Gaerdydd oherwydd anfforddiadwyedd. • Mae'r pwysau ar les staff, gyda'r staff eu hunain hefyd wedi'u heffeithio gan yr argyfwng costau byw. 	

Rhif	Eitem Agenda	
	<p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae pob partner yn trefnu i weithredu trefniadau cyfeirio - at gymorth argyfwng costau byw - ar gyfer preswylwyr, gan sicrhau bod trigolion yn cael eu cyfeirio at gefnogaeth sy'n cael ei ddarparu ar draws sefydliadau. 	PAWB
5.	<p>Lleihau Lleoliadau Preswyl - Maethu</p> <p>Rhoddodd Sarah McGill ddiweddariad i Aelodau BGC am yr heriau o ddod o hyd i leoliadau ar gyfer plant sy'n ymuno â'r system achosion, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn galw a chymhlethdod achosion.</p> <p>Nododd Sarah McGill fod Gofal Cymdeithasol yn symud i ffwrdd o ymgyrch gyfathrebu gyffredinol i recriwtio gofalwyr maeth ac yn hytrach bydd yn datblygu dull mwy wedi'i dargedu. Fel rhan o hyn, mae Cyngor Caerdydd wedi datblygu 'Polisi Sy'n Dda i Faethu', a fydd yn cefnogi gweithwyr sy'n ddarpar ofalwyr maeth neu'n rhai sy'n bodoli eisoes.</p> <p>Camau Gweithredu:</p> <ul style="list-style-type: none"> 'Polisi Sy'n Dda i Faethu' Cyngor Caerdydd yn cael ei rannu ag Aelodau Gwasanaeth Cyhoeddus. Pob partner i ystyried a fydden nhw'n hapus i weithredu'r 'Polisi Sy'n Dda i Faethu' o fewn eu sefydliad. Diweddariad i'w ddarparu mewn cyfarfod darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn y dyfodol, er mwyn profi a oedd sefydliadau partner yn gallu diwygio eu polisiau Adnoddau Dynol er mwyn annog a chefnogi maethu o fewn eu sefydliadau. 	Ysgrifenyddiaeth / Pawb
6.	<p>Diogelwch Cymunedol</p> <p>Nododd y Cadeirydd fod y Swyddog a oedd i ddarparu'r diweddariad yn anffodus yn sâl. Bydd diweddariad ysgrifenedig yn cael ei ddsbarthu ar ôl y cyfarfod.</p>	
7.	<p>Siarter Teithio Iach Staff Caerdydd</p> <p>Rhoddodd Dr Tom Porter, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, ddiweddariad ar y cynnydd a chyflwynodd Siarter Lefel 2.</p> <p>Roedd y BGC yn cydnabod y cyflawniad a'r enghraifft a osodwyd gan y sefydliadau sydd bellach wedi cwrdd, neu a fydd yn cwrdd yn fuan, yr holl ymrwymadau Siarter Teithio Iach, yn arbennig y gwaith gan y priod arweinwyr ar gyfer pob sefydliad.</p> <p>CYTUNWYD:</p>	

Rhif	Eitem Agenda	
	<ul style="list-style-type: none"> • Cytunwyd y byddai pob sefydliad partner yn ystyried cofrestru ar gyfer Lefel 2 y Siarter Teithio Iach lle bo hynny'n bosib. • Cytunodd sefydliadau partner, nad oes disgwyl iddynt fodloni ymrwymadau cychwynnol y Siarter Teithio Iach erbyn Rhagfyr 2022, i ddyblu eu hymdrechion. 	
8.	<p>Unrhyw fater arall</p> <p>Cyflwynodd Fiona Kinghorn ddiweddariad dros dro i Gynllun Achosion Clefydau Trosglwyddadwy Cymru, a gyhoeddwyd ar 3 Hydref 2022.</p> <p>Cyfarfod Nesaf y BGC:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 30 Tachwedd 2022 	
9.	<p>Digwyddiad Dathlu'r Siarter Teithio Iach</p> <p>Digwyddiad dathlu i nodi sefydliadau sy'n cwblhau Siarter Teithio Iach Caerdydd a chyflwyno'r Siarter Lefel 2.</p>	